TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

TGAU (NEWYDD)
CYMRAEG IAITH

HAF 2018

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Cyf.

Cymraeg Iaith

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

Uned 1: Asesiad Diarholiad – Tasgau Llafar

Cyffredinol

Cafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau graenus gyda'r ymgeiswyr yn dangos hyder cynyddol wrth gwblhau'r tasgau a osodir. Mae'n amlwg bod yr ymgeiswyr wedi cael profiadau niferus ar lawr dosbarth fel eu bod wedi eu paratoi'n drylwyr a'u bod yn gyfforddus gyda'r tasgau. Medda'r canolfannau ar ddealltwriaeth dda o ofynion y tasgau a throsglwyddir hyn yn effeithiol i'r ymgeiswyr. Arweinia'r gwaith paratoi gofalus a wneir at gyflwyniadau trefnus ac at drafodaethau pwrpasol. Mae'n braf cael dweud unwaith eto nad oedd defnydd o eiriau Saesneg yn rhy amlwg ag eithrio ambell ymgeisydd. Adlewyrcha hyn barch tuag at y tasgau a thuag at eu cyrhaeddiad eu hunain. Fel ym mhob cyfres, mae'n fraint cael gwrando ar gyflwyniadau heriol a thrafodaethau aeddfed.

Gweinyddol

Mae'r gofynion gweinyddol yn cael eu hamlinellu'n glir yn y fanyleb yn ogystal â'r canllawiau a rennir gan CBAC ac mae mwyafrif y canolfannau yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus. Cyflwynir y gwaith yn drefnus gyda'r tasgau wedi eu gosod mewn ffeiliau hylaw. Ceir nodiadau manwl ar y taflenni cofnodi sydd o gymorth mawr yn y broses safoni.

Cryfderau:

- Mwyafrif y gwaith yn cyrraedd yn brydlon
- Co bach yn hylaw iawn
- Sain y mwyafrif yn dda
- Ychydig mwy o dystiolaeth o safoni
- Nodiadau manwl ar nifer o'r taflenni unigol
- Labelu CD/ Co bach
- Traciau mewn ffeiliau trefnus, bob yn ymgeisydd neu bob yn dasg
- Gwybodaeth gywir ar ddechrau'r traciau
- Ymgeiswyr yn cyflwyno'u hunain yn eglur fel y gellir adnabod unigolion yn y dasg grŵp
- Cynnwys nodiadau unigol yr ymgeisydd

Materion sy'n codi:

- Rhai wedi anghofio cynnwys nodiadau unigol a'r safonwr yn gorfod cysylltu â'r ganolfan
- Enghreifftiau prin o daflenni ymgeisydd heb nodiadau athro
- Diffyg labelu'r co bach
- Enghreifftiau o ymgeiswyr anghywir wedi eu gyrru/traciau coll
- Ambell wall gweinyddol e.e. marciau'r tasgau'n cael eu cofnodi'n groes i'w gilydd
- Enghreifftiau o safoni ar ôl bwydo'r marciau i'r system a'r marciau safoni'n wahanol – mae'r broses asesu yn caniatáu digon o amser i ganolfannau asesu **cyn** bwydo marciau

WJEC CBAC Cyf.

Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil:

Cafwyd cyflwyniadau difyr iawn ar draws yr ystod ac mae'n amlwg bod cryn ymdrech ar ran yr ymgeiswyr yn arwain at lwyddiant yn y dasg hon. Clywyd llai o gyflwyniadau byrion ac mae'r elfen o holi cwestiynau yn hanfodol yn hyn o beth gydag athrawon yn gofyn cwestiynau effeithiol sy'n arwain at ymestyn y cyfraniadau gan ymgeiswyr llai hyderus. Telir mwy o sylw i gynnal diddordeb y gynulleidfa drwy flaenoriaethu gwybodaeth ddiddorol a'r defnydd o dechnegau megis cwestiynau rhethregol. Mae mwyafrif yr ymgeiswyr yn sicrhau bod un agwedd o'r cyflwyniad yn mynnu elfen o ddehongli ac maent yn llwyddo i wahanol raddau. Gwelir dehongli drwy gydol y cyflwyniad ar gynnydd ac mae hyn i'w ganmol. Gellir annog ymgeiswyr i gwestiynu pob ffaith a gyflwynir er mwyn sicrhau dehongli cyson e.e. yn hytrach na datgan yn unig mai yng nghefn gwlad y cafodd testun eu cyflwyniad ei fagu, beth am ystyried a gafodd magwraeth cefn gwlad ddylanwad ar ei gymeriad/ei waith/ei gyfraniad. Mae'r duedd i osod ymgeiswyr ym Mand 4 pan na cheir ond brawddeg o ddehongli yn parhau ac nid yw'n adlewyrchiad teg o'r safon. Er mwyn cynnal hygrededd manyleb, rhaid wrth asesu teg gan bob canolfan (ymhelaethir ar hyn yn yr adran 'Asesu'). Rhaid wedyn wrth dreiddgarwch i gyrraedd Band 5; nid yw pwnc heriol yn ei hun yn cyrraedd Band 5 a rhaid wrth ymdriniaeth ddeallus ac aeddfed o'r pwnc hwnnw. Mae'n bleser gwrando ar bobl ifanc Cymru yn cyflwyno'n drefnus ac yn hyderus ar destunau mor amrywiol a theimlir yn sicr fod y profiad yn fuddiol iddynt wrth wynebu'r dyfodol. Diolch i'r holl ganolfannau am sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael profiadau priodol wrth baratoi at y dasg hon.

Cryfderau:

- Paratoi yn dda - mwyafrif gyda digon o wybodaeth i gynnal 5 munud
- Mwyafrif llethol yn dewis testun o fewn eu gallu profiad
- Testunau heriol gan nifer
- Pynciau amrywiol a hynod ddifyr yn adlewyrchu diddordebau didwyll
- Geirfa dechnegol yn cael ei defnyddio'n hyderus
- Syniadau cymhleth ar y brig
- Rhai ar draws yr ystod yn dadansoddi'n gyson
- Mwyafrif yn cynnwys agwedd yn mynnu dadansoddi
- Manteisio ar y cyfle i ddadansoddi wrth ateb cwestiynau
- Arfer dda – gosod cyd-destun/crynhoi'r testun ar y dechrau/nodi pam y'i dewiswyd
- Nifer yn defnyddio cwestiynau rhethregol yn gynnil a phwrpasol i ychwanegu at apêl y cyflwyniad a chynnal diddordeb y gynulleidfa
- Diddorol o ran arddull/cywair – gwell ymwybyddiaeth o gynulleidfa yn gyffredinol
- Mwyafrif y cyflwyniadau'n drefnus a chydlynus ac yn llifo'n naturiol o un agwedd i'r llall
- Cysylltiad clir rhwng agweddau yn cynnig datblygiad naturiol
- CWESTIYNU – rhai ar waelod Band 3 yn gallu gwella ar eu perfformiad drwy ateb cwestiynau'n fanwl a dadansoddi rhywfaint
- Ateb cwestiynau'n adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth dda
- Cwestiynau gorau'n codi o'r cyflwyniad – mae gofyn i'r gynulleidfa wrando er mwyn holi cwestiynau sy'n codi'n naturiol o'r cyflwyniadau
- Mwyafrif llethol wedi osgoi geiriau Saesneg
- Llawer o'r nodiadau unigol yn gryno iawn
- Dyfynnu enwogion/cerddi wrth osod cyd-destun eu cyflwyniad – difyr iawn
- Llai yn mynegi barn ac yn dangos gwell dealltwriaeth o ddehongli syniadau

WJEC CBAC Cyf.

Materion sy'n codi:

- Rhai sydd heb gael cwestiynau fwyfwy o dan anfantais – mae hyn yn amddifadu ymgeiswyr o gyfle pellach i ddadansoddi felly anogir pawb i geisio holi cwestiwn
- Ychydig o eiriau Saesneg
- Gormod yn darllen – RHAI YN CYNNWYS SGRIPT YN Y NODIADAU (Mae hyn weithiau wedi ei adlewyrchu yn y marc a sylwadau'r athro ond yn amlach na pheidio nid yw hyn yn wir)
- Enghreifftiau prin heb agweddau a threfn
- Cwestiynau ac atebion yn amlwg wedi eu paratoi gan nifer – ddim yn ychwanegu at y cyflwyniad o gwbl (rhai wedi cynnwys y cwestiynau a'r atebion yn eu sgript)
- Diffyg cydlynedd oherwydd testun eang e.e. Cymru – pêl-droed, y Sioe Frenhinol a rygbi
- Rhestru ffeithiau heb fath o ddehongli – dylid ceisio esbonio arwyddocâd pob ffaith e.e. oedd man geni a magwraeth person wedi dylanwadu arno?
- Mwy o yrru ymgeisydd gwahanol/traciau coll – cofier bod angen cysylltu â CBAC am hyn
- Rhai ymgeiswyr da heb ddewis testun ag iddo ddigon o her
- Rhai cyflwyniadau hir o 9+ munud - mae dethol a blaenoriaethu gwybodaeth yn sgiliau pwysig yn y dasg hon
- Cwestiynau arwynebol yn cyfyngu ar allu ymgeisydd i ychwanegu at y cyflwyniad
- Dim nodiadau athro ar daflen gofnodi'r ymgeisydd – atgoffir canolfannau bod y nodiadau hyn o fudd mawr i'r safonwr wrth geisio cyfiawnhau marciau'r ganolfan

Rhai testunau a gyflwynwyd:

- Ffoaduriaid Syria
- Hanes Diwydiant Ffilm Cymru
- Dramâu Meic Povey
- Camerâu
- Rhaglennu
- Bongelloedd
- Effaith Meddygol Canabis
- Annibyniaeth Catalwnia
- Seibr-fwlio
- Dylanwad Cymreig ar UDA
- Hiliaeth yn America yn 30au'r ganrif ddiwethaf
- Portread o ferched gan Disney
- Y Refferendwm a Brexit
- Mudo i Batagonia
- Ffermio yn Awstralia
- Poi
- Daeareg a Chymru
- Apollo II
- Masnach Deg
- Hanes a Dylanwad Clwb Pêl-Droed Lerpwl
- Ffermio Mynydd
- Gruff Rhys
- Ewro 2016
- Pêl-droed Merched
- Dyn a Natur
- Ambiwlans Awyr Cymru

WJEC CBAC Cyf.

Ymateb a Rhyngweithio:
Yn flynyddol, mae'n destun rhyfeddod clywed pobl ifanc yn trafod pynciau cyfoes yn ddeallus a hyderus. Gall nifer fawr o grwpiau drafod yn bwrpasol a chydag argyhoeddiad. Daw'r argyhoeddiad fel arfer o waith ymchwil annibynnol i'r testun a ddewiswyd, sy'n golygu bod gwell perchnogaeth gan yr ymgeiswyr ar y testun a'r drafodaeth. Teimlir bod mwy o ymdrech yn cael ei wneud ar draws yr ystod i ymhelaethu ac esbonio safbwyntiau ac mae hyn yn beth cadarnhaol iawn. Lleiafrif sydd yn cael trafferth cyfrannu a phrofa hyn fod yr ymgeiswyr wedi cael profiadau niferus ar lawr dosbarth i ennyn hyder ynddynt cyn yr asesiad terfynol. Roedd mwyafrif y grwpiau wedi gallu adnabod yr her yn y testunau gan drafod agweddau amrywiol. Bu'n destun siom, serch hynny, na fu i rai ymgeiswyr cryf droi at agweddau mwy heriol y testun 'Fy Ardal', er enghraifft lefel diweithdra a chyfleoedd i bobl ifanc, yn hytrach na chanolbwyntio ar brofiadau personol mwy arwynebol. Digwyddodd hyn yn achos 'Byd Addysg' y llynedd a rhaid i ganolfannau, felly, gynghori ac atgoffa ymgeiswyr i flaenoriaethu'r pwyntiau heriol hynny yn y sbardun pan fo hynny'n briodol. Er bod naturioldeb ar gynnydd, cafwyd enghreifftiau o nodiadau ar ffurf sgript unwaith eto eleni a phery'r arfer gan rai i wneud y sefyllfa'n fwy ffurfiol nag y dylai fod. Mae datganiadau hirfaith a digyswllt gan ymgeiswyr yn awgrym cryf o sgriptio ac yn llesteirio trafodaeth naturiol. Rhaid ystyried materion o'r fath er mwyn rhoi asesiad teg.

Cryfderau:
- Defnydd naturiol o eirfa mynegi barn
- Gwrando ar eraill ac ymateb yn ddidwyll gan ddatblygu'r drafodaeth a sicrhau dyfnder
- NATURIOLDEB
- Ymchwil annibynnol yn arwain at berchnogaeth o'r dasg, didwylledd yn yr ymateb a ffresni
- Enghreifftiau o brocio ac ymyrryd sensitif ac angenrheidiol
- Ennill Cyflog – poblogaidd ac wedi ymdopi'n dda ar draws yr ystod
- Yr Ardal – trafodaeth aeddfed gan rai
- Cymhwyso tystiolaeth i GEFNOGI barn
- Mwy a mwy o grwpiau'n gallu trafod am 10 munud – hyd yn oed ar waelod yr ystod
- Defnydd da o dystiolaeth a chwestiynau'r sbardun gan nifer er mwyn trafod gwahanol agweddau, rhai yn fwy heriol na'i gilydd
- Trafod yn annibynnol
- Rhai yn trafod materion cyfoes yn gwbl hyderus a deallus
- Trafodaethau gorau – Diffyg Parch

Gwendidau:
- Sgriptio – rhai wedi cynnwys sgript
- Ryngweithio annaturiol oherwydd gorbaratoi
- Datganiadau hirfaith, annaturiol ac ynysig gan unigolion – dim rhyngweithio rhwng y datganiadau
- Rhai sylwadau arwynebol heb ymgais i esbonio'u barn e.e. "gormod o bres am gicio pêl am 90 munud"
- Yr Ardal – nifer fawr wedi colli cyfle i drafod agweddau mwy heriol ac yn siarad am brofiadau personol yn unig - angen gwneud gwell defnydd o'r sbardun (gormod o rai da wedi trafod yn arwynebol)
- Diffyg pwrpas ac argyhoeddiad – digon yn y sbardunau iddyn nhw gael perchnogaeth ar y dadleuon
- Rhai trafodaethau hir o 15 munud
- Ychydig o amharu diangen a chymryd rhan yn y drafodaeth
- Rhai yn defnyddio tystiolaeth fel cyflwyno gwybodaeth
- Diffyg gwrando yn arwain at drafodaethau digyswllt

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Asesu:

O'r holl negeseuon a rennir eleni, y neges ynglŷn ag asesu teg yw honno i **rai** canolfannau. Rydym fel safonwyr yn cydnabod mai safoni o fewn canolfan a wneir, gyda chefndir y canolfannau hynny yn amrywiol iawn, a'i bod yn anodd ystyried y safon mewn cyd-destun cenedlaethol bob tro. Serch hynny, mae hyfforddi wedi digwydd ar y fanyleb newydd ers rhai blynyddoedd a phwysleisiwyd yn hyfforddiant yr hydref yn 2017 nad yw marciau'r fanyleb newydd yn gyfwerth â marciau'r hen fanyleb wrth edrych ar ofynion penodol y cynllun marcio. Os pery'r arfer o roi marc Band 4 i unigolion sy'n rhestru gwybodaeth heb brin ddadansoddi, er enghraifft, yna ni fydd y safon a welir gan y safonwyr yn adlewyrchu meini prawf y fanyleb. Dylid astudio'r gofynion yn fanwl a'u trafod fel adrannau cyn mynd ati i asesu a safoni er mwyn cadarnhau'r disgwyliadau. Rhaid i'r asesiadau, y perfformiad a'r disgrifiadau bandiau gael eu hystyried yn fanwl er mwyn sicrhau tegwch i bob canolfan. Os bydd gwthio marciau yn uwch yn digwydd, yna ni fydd y disgrifiad band a'r safon yn paru'n deg. Mae'n destun rhyfeddod nad oes ymgeiswyr gyda marc o lai na chanol Band 3 am y ddwy dasg mewn rhai canolfannau o ystyried bod cyfyngiadau amser ar y tasgau a'r ffaith nad yw'n bosib gwneud y dasg fwy nag un waith os nad yw'r testun yn cael ei newid.

Iaith:
Rhaid canmol ymdrechion amlwg yr ymgeiswyr i ddefnyddio geirfa estynedig gan osgoi defnyddio geiriau Saesneg. Llwyddodd y mwyafrif i gyfathrebu'n eglur ac effeithiol gyda'r goreuon yn gwneud defnydd pwrpasol o batrymau a thechnegau i greu effaith.

Cryfderau:
- Mwyafrif yn osgoi geiriau Saesneg
- Ymchwilio manwl yn arwain at ddefnydd o eirfa testun heriol
- Amrywio patrymau brawddegau yn arwain at gyflwyniadau mwy diddorol
- Geirfa a phatrymau sy'n cysylltu syniadau ac agweddau yn arwain at ddilyniant a datblygiad synhwyrol

Materion i'w datblygu:
- Rhai geiriau Saesneg oherwydd diffyg paratoi
- Pan fo geiriau newydd yn cael eu defnyddio oherwydd ymchwil, mae angen ymarfer eu defnyddio'n gywir mewn cyd-destun
- Brawddegau di-ferf yn arwain at restru diflas heb gyd-destun
- Yr arfer o gyfieithu trwy *Google* yn parhau i fod yn amlwg mewn ambell gyflwyniad
- Rhaid ystyried cydbwysedd rhwng ehangder a her yr eirfa a lefel y cywirdeb wrth bennu marc
- *so/then/like*
- i gyd o
- mae o/hi efo
- gwrando i
- mor gymaint

Diolch i'r holl ganolfannau am gynnal yr ymgeiswyr drwy'r profiadau hyn ac am sicrhau dealltwriaeth dda o'r tasgau sy'n arwain at fwy o hyder a gwell cyrhaeddiad yn y pen draw. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt gan gynyddu eu hyder wrth drafod yn y Gymraeg a thrwy hynny'n chwarae rhan bwysig wrth baratoi ar gyfer profiadau heriol fydd gan yr ymgeiswyr yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Cyf.

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

Uned 2 Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

Cyffredinol

Mae'n galondid gweld ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu yn ymateb mor bositif i bapur di-haen gyda'r mwyafrif yn ateb yr holl gwestiynau. Yn naturiol, cyniga rhai o'r darnau darllen fwy o her ond dylid canmol dycnwch yr ymgeiswyr a'u hawydd i lwyddo. Wrth i'r fanyleb hon fagu gwreiddiau, daw ymgeiswyr yn fwy hyderus wrth ystyried gwir ofynion cwestiwn a gwelir atebion perthnasol ar gynnydd. Mae'r mwyafrif yn adalw gwybodaeth yn effeithiol iawn gan ddilyn prosesau gwirio y maent wedi eu hyfforddi gan athrawon i'w defnyddio. Ychydig, wedyn, sy'n gallu dehongli gwybodaeth a'i berthnasu'n gwbl hyderus i ofynion cwestiwn a dyma'r man lle dylid canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymgeiswyr at y dyfodol. Diolch i'r canolfannau am barhau i ymateb i her manyleb newydd a phapurau sy'n gofyn am feddwl annibynnol: mae'n her magu hyder mewn disgyblion o bob gallu i wneud penderfyniadau annibynnol a dewis a dethol pa sgiliau i'w rhoi ar waith. Gwneir hyn drwy ddulliau holi effeithiol fel y daw pob dysgwr i'w holi ei hun yn gyson wrth ymateb i ddarnau darllen a chwestiynau heriol.

Adran A: Darllen

Lleiafrif a fethodd ag ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a llwyddodd y mwyafrif i adalw gwybodaeth berthnasol i'r cwestiynau ym mhob achos. Gyda rhai cwestiynau yn cymryd ychydig o amser yn unig i'w cwblhau, dylai'r ymgeiswyr dreulio mwy o amser yn sicrhau atebion manylach i'r cwestiynau mwy estynedig mewn rhai achosion.

A1
Llwyddodd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr i nodi '414,000' fel yr ateb cywir a gwelwyd tystiolaeth o'u proses wirio ar y papur ateb mewn sawl achos. Er nad oes cymaint o her i'r math hwn o gwestiwn â rhai o'r cwestiynau eraill, mae'n braf gweld bod yr ymgeiswyr yn cadarnhau eu hatebion er mwyn osgoi colli marciau gwerthfawr.

A2
Roedd y cwestiwn hwn yn cynnig mwy o her gan ei fod yn gofyn am gymharu gwybodaeth cyn dewis yr atebion cywir. Llwyddodd nifer dda i brosesu a gwirio'r wybodaeth gywir ond profa'r cwestiwn yr angen i ymarfer sgiliau cymharu yn gyson.

A3
Llwyddodd nifer uchel i ystyried cyd-destun y gair er mwyn canfod ei ystyr ond nid pawb lwyddodd i ddewis 'poblogaidd' fel yr ateb cywir. Dylid ymarfer gosod pob opsiwn yng nghyd-destun y frawddeg i wrando am yr ateb mwyaf synhwyrol.

A4
Llwyddodd y mwyafrif i nodi 'cyflythreniad' fel y nodwedd arddull a ddefnyddir yn nheitl y poster. Diddorol oedd gweld sawl un yn nodi trosiad o ystyried wedyn eu bod yn galw sawl nodwedd arddull yn drosiad yn A7. Mae adnabod trosiad yn her ac efallai fod mwy o waith i'w wneud yma o ran hyfforddi i adnabod trosiadau'n gywir.

© WJEC CBAC Cyf.

A5
Llwyddodd y mwyafrif i ddefnyddio'u geiriau eu hunain i esbonio'r cysyniad o Ffair Ffeirio gan sylweddoli mai'r gair allweddol i'w esbonio oedd 'ffeirio'. Gan nad oedd nifer o opsiynau ar gael ar gyfer aralleirio, gwobrwywyd unrhyw beth oedd yn awgrymu'r syniad o gyfnewid. Roedd yn braf gweld yr ymgeiswyr, yn hytrach nag yn bodloni ar esbonio 'ffeirio' yn unig, yn mynd ymlaen i fanylu ar yr hyn sy'n digwydd yn y cyfryw ffair gan sicrhau eu bod yn ateb y cwestiwn yn llawn.

A6
Llwyddodd y mwyafrif i nodi mai 'cyflwyno gwybodaeth' oedd bwriad yr awdur ac roedd hyn yn galonogol o ran gweld cryfder y sgil hon. Mae'n amlwg bod canolfannau yn ystyried bwriad awdur wrth astudio ffurfiau a bod ymgeiswyr yn cadw bwriad awdur mewn cof wrth fynd ati i ysgrifennu eu hunain. Nid oedd dethol yr ateb anghywir yn A6 yn arwain at fethu ag ennill marciau yn A7.

A7
Fel y nodwyd eisoes, gellid ateb y cwestiwn hwn waeth beth oedd yr ateb i gwestiwn A6 ond câi'r rhai a ddewisodd yr ateb anghywir yn A6 fwy o drafferth cyfiawnhau yr ateb hwnnw wrth edrych am dystiolaeth o'r darn darllen. Roedd nifer fawr yn ailadrodd mai cyflwyno gwybodaeth oedd bwriad y darn cyn mynd ati i restru ffeithiau amrywiol o'r darn darllen. Waeth faint o ffeithiau a restrwyd, un nodwedd i gefnogi eu hateb a gynigwyd mewn gwirionedd. Pwyleisir unwaith eto eleni nad yw 'sut' o reidrwydd yn gyfystyr ag arddull a gellir gwobrwyo am wybodaeth heb enwi termau penodol neu am roi teitl llac iddynt. Serch hynny, roedd yr atebion gorau yn enwi nodweddion arddull, yn eu dyfynnu ac yn trafod eu heffaith yn fanwl. Nid oedd ansawdd y dadansoddi effaith wastad yn dda ac mewn gwirionedd ychydig iawn o wreiddioldeb a gafwyd gyda nifer sylweddol yn nodi rhesymau stoc e.e. creu darlun yn y pen. Nododd un arholwr fod brawddegau stoc yn gallu gweithio ond i'r ymgeisydd berthnasu'r effaith i'r enghraifft benodol e.e. i roi trosolwg gweledol o… ac yna sylw penodol am y darn darllen. Rhaid hyfforddi ymgeiswyr i fynd gam ymhellach gan holi 'Pa fath o ddarlun sy'n cael ei greu? Pam mae'r awdur yn ceisio creu'r ffasiwn ddarlun?' Llwyddodd y mwyafrif i drafod nodweddion megis isdeitlau, cwestiynau rhethregol a rhestru'n effeithiol a chafwyd rhai ymatebion mwy deallus e.e. y defnydd o gysyllteiriau i gyflwyno gwybodaeth am broses benodol. O ystyried her y darn darllen esboniadol hwn, llwyddodd yr ymgeiswyr yn rhyfeddol gyda'r cwestiwn.

A8
Cafwyd ymateb da iawn i'r cwestiwn hwn gyda nifer uchel yn nodi 'gweddnewidiad'. Roedd hwn yn air heriol ond cafwyd llwyddiant wrth i ymgeiswyr edrych ar gyd-destun neu drwy ddewis rhestr fer o opsiynau cyn dewis yn derfynol. Roedd ambell un wedi tanlinellu gair neu eiriau eraill megis 'delwedd' neu 'gwallt a cholur'. Ychydig iawn o ymgeiswyr a danlinellodd fwy nag un gair neu frawddeg gyfan ac mae hyn yn galonogol iawn o ran y gallu i ddilyn cyfarwyddyd fydd yn hanfodol yn y byd gwaith.

A9
Ar y cyfan, llwyddodd yr ymgeiswyr i brosesu a gwirio gwybodaeth yn effeithiol wrth ateb y cwestiwn hwn.

A10
Llwyddodd y mwyafrif i ateb yn gryno ac yn bwrpasol ond gwelwyd rhai atebion hirfaith gyda'r ymgeisydd yn ennill ei farciau yn y frawddeg gyntaf. Roedd y mwyafrif yn cynnig rhesymau cywir ond roedd rhai yn nodi rhesymau megis 'nid yw Osian yn hoffi labeli'. Gallai siopau *vintage*, wrth gwrs, werthu dillad gan labeli adnabyddus felly nid oedd y rheswm yn dal dŵr.

WJEC CBAC Cyf.

A11
Ac eithrio'r rhai na fu iddynt ymdrechu i ateb, prin oedd y rhai a fethodd â chael marc yn y cwestiwn hwn. Gallai'r mwyafrif adalw gwybodaeth syfaenol am y ddau berson dan sylw ac mae'n bwysig bod cwestiwn olaf yr adran darllen yn caniatáu i ymgeiswyr ar draws yr ystod gynnig ateb o ryw fath. Yr hyn oedd yn amlwg oedd mai lleiafrif sy'n meddu ar sgiliau cymharu cryf fel eu bod yn ateb y cwestiwn yn bwrpasol ac yn effeithiol. Roedd nifer uchel yn ysgrifennu paragraff yr un am y ddau berson heb gymharu bwriadol o fath yn y byd, neu weithiau gydag un cymal yn cymharu'n gwbl gyffredinol ar ddechrau'r ail baragraff. Rhaid wrth gymharu bwriadus a chyson er mwyn ateb cwestiwn o'r fath yn effeithiol. Roedd rhai yng nghanol yr ystod yn llwyddo i adalw gwybodaeth sylfaenol am y ddau ochr yn ochr ac roedd yr atebion yn drefnus ac yn bwrpasol e.e. 'O ran gwaith mae'r ddau yn wahanol gyda Huw yn gyflwynydd teledu ond cerddor yw Osian'. Roedd y goreuon wedyn yn dehongli'n graff wrth gymharu e.e. 'Mae gan y ddau agwedd hollol wahanol tuag at gynnig cyngor gydag Osian yn amharod i gynghori unrhyw un ar ffasiwn gan ddweud y dylai pawb wisgo fel y mynnent. Mae Huw, ar y llaw arall, yn gwneud bywoliaeth o gynghori pobl eraill a hyd yn oed yn cofio pan fo merched yn gwisgo'r un ffrog ddwy waith!' Defnyddiai'r goreuon eirfa cymharu'n gyson a dylid bwydo'r rhain ar lawr dosbarth fel y gall ymgeiswyr eu defnyddio'n hyderus fel strwythur i'w gwthio i gymharu'n gyson.

Ar y llaw arall gwelwyd gormod o ymgeiswyr yn cymharu'r ddau ddarn darllen yn hytrach na chymharu Huw ac Osian. Rhaid gwirio gofynion y cwestiwn cyn bwrw ati i ateb neu'r munud y bydd ymgeisydd yn cychwyn ar y trywydd anghywir, nid oes troi'n ôl i fod. Mewn achosion fel hyn, roedd arholwyr yn chwilio am ffeithiau perthnasol i'w gwobrwyo ond ni allai'r ymgeiswyr sgorio'n uchel gan nad oeddent yn ateb y cwestiwn.

A12
Golygu

i) Llwyddodd nifer uchel i nodi 'gyflymaf' ond nid oedd rhai o reidrwydd wedi gwirio'r ateb yn ei gyd-destun.
ii) Fel yng nghyfres Tachwedd 2017, cafwyd mwy a drafferthion gyda'r cwestiwn hwn a chynghorir yr ymgeiswyr i ddarllen y frawddeg gyda'u dewis hwy o ateb cyn symud ymlaen.
iii) Roedd yn syndod cyn lleied a lwyddodd i gael y tair brawddeg yn eu trefn gywir. Roedd y mwyafrif yn cael y frawddeg olaf yn gywir ond yn drysu'r ddwy arall. Roedd y geiriau 'nwyon **hyn**' a '**hefyd**' yn gliwiau wrth rhoi trefn ar y brawddegau ac efallai fod angen mwy o waith ar edrych am gliwiau sy'n rhoi trefn ystyrlon a dilyniant i ddarn darllen.

Negeseuon Adran A
Pery negeseuon cyfres haf 2017 yn gwbl berthnasol er bod cynnydd amlwg wedi bod wrth i fwy o ddisgyblion ateb gofynion y cwestiwn a llai yn trafod y darnau darllen anghywir. Nodir isod y negeseuon ar gyfer y rhai sy'n darllen adroddiad TGAU Cymraeg laith am y tro cyntaf:

Ateb pob rhan o gwestiwn:
Sawl rhan sydd i'r cwestiwn?
Ydw i wedi ateb yr holl rannau?
Ydw i wedi defnyddio tystiolaeth o'r darn darllen pan fo gofyn am hyn?

Gweld y cyfle yn y cwestiwn:
Beth yn union mae'r cwestiwn yn gofyn i mi ei wneud?
A yw ailadrodd ffeithiau yn unig yn mynd i fod yn ddigon?
Oes angen i mi dynnu gwybodaeth at ei gilydd o fwy nag un darn gan grwpio'r wybodaeth honno?

© WJEC CBAC Cyf.

Cymhwyso gwybodaeth:
A oes gofyn i mi ddefnyddio gwybodaeth yn hytrach nag ailadrodd yn unig?
Oes angen i mi ddethol gwybodaeth berthnasol a hepgor gwybodaeth amherthnasol?
Oes angen i mi gymhwyso'r wybodaeth i ofynion tasg benodol e.e. llythyr cais am swydd?
Oes angen i mi esbonio, gwerthuso neu ddehongli'r wybodaeth er mwyn creu gwell ateb?

Gwahanol ddulliau o resymu a chyflwyno tystiolaeth:
Pam rydw i'n meddwl mai dyma'r ateb cywir? Beth sy'n gwneud i mi feddwl mai dyma yw neges y darn (e.e.)?
Oes yna ddigwyddiadau penodol yn gwneud i mi feddwl hyn?
Oes yna gymeriadau gwahanol sy'n gwneud i mi feddwl hyn?
Oes yna nodweddion arddull sy'n gwneud i mi feddwl hyn?
Ydy'r dulliau hyn yn effeithiol wrth i'r awdur gyfleu neges/creu awyrgych/ceisio creu effaith penodol ar y darllenydd?
Ydw i wedi trafod y dystiolaeth neu enwi dulliau'r awdur yn unig?
Ydw i wedi cyfeirio'n benodol at y darn darllen neu wedi dyfynnu ohono?

Meddwl yn annibynnol a bod yn barod am unrhyw beth:
Beth yn union mae'r cwestiwn yn ei ofyn i mi?
Sut galla' i ateb y cwestiwn yn llawn?
Ai ffeithiau'n unig sydd angen i mi eu cynnwys?
Oes angen i mi ddehongli'r wybodaeth y tro hwn?
Oes angen i mi ddefnyddio a chymhwyso'r wybodaeth i gyd-destun penodol y tro hwn?

Os oes angen i mi ddehongli/esbonio/gwerthuso, oes cyfle i mi ddefnyddio geirfa megis:

- Awgryma'r dyfyniad fod …
- Pwysleisia hyn fod ..
- Dengys hyn fod …
- Gellir casglu ar sail hyn bod …
- Mae hyn yn profi…
- Defnyddia'r awdur y dechneg hon er mwyn creu…

Yn ychwanegol at y negeseuon a bery'n berthnasol, dylid hefyd ystyried:

effeithiolrwydd dulliau holi a herio ar lawr dosbarth – o holi'n gyson er mwyn herio dilysrwydd a manylder ateb, daw'r **ymgeiswyr i holi eu hunain yr un mor feirniadol** gan arwain at atebion manylach a mwy treiddgar;

mireinio **sgiliau cymharu** a bwydo geirfa cymharu i ymgeiswyr.

WJEC CBAC Cyf.

Adran B: Ysgrifennu
B1
Prawf ddarllen
Cymysg fu'r ymateb i'r cwetiynau hyn ac roedd ambell un yn sicr yn cynnig her.

i) Siomedig fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn ac er bod nifer ag ymwybyddiaeth o ble roedd y gwallau roedd y cywiriadau a nodwyd yn hollol anghywir a diangen e.e. pum> pump neu ei haddurno> ei addurno. Prin iawn oedd y rhai a lwyddodd i gywiro'r ddau wall.

ii) Cafodd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yr ateb hwn yn gywir ond diddorol yw gweld nad ydynt yn defnyddio'r union dreiglad yn gywir yn eu gwaith eu hunain wedyn.

iii) Ychydig a lwyddodd i un ai symud yr arddodiad neu ei redeg yn y frawddeg hon. Roedd nifer yn ymwybodol o'r angen i newid y ferf neu'r tag amser yn yr ail frawddeg ond cymharol ychydig a lwyddodd i wneud hyn yn gywir. Roedd ambell un yn newid ystyr y frawddeg yn llwyr ac nid oedd hyn yn dderbyniol.

B2
Roedd tasgau byrion yn bryder yng nghyfres Tachwedd ond gwelwyd gwelliant sylweddol yn hyn o beth yr haf hwn. Mae hyn i'w ganmol yn fawr er bod rhaid nodi bod angen i rai ymgeiswyr ddeall gwerth cynildeb wrth ysgrifennu hefyd! Gwelwyd ymdrech i ysgrifennu'n estynedig ar draws yr ystod ac ychydig iawn o ddarnau a haeddai'r nodyn 'rhy fyr' ar derfyn y gwaith. Gwnaed defnydd da o'r blwch cynllunio gan nifer ac roedd hyn yn arwain at ddarnau ag iddynt strwythur cryfach. Yn gyffredinol, mae angen gwell strwythuro ar ddarnau ysgrifennu er mwyn sicrhau datblygiad bwriadus.

Dyddiadur

Cryfderau:
- Mwy o ddyddiaduron difyr yn canolbwyntio ar un prif ddigwyddiad gan anwybyddu rhannau mwyaf diflas y diwrnod
- Rhai dyddiaduron gwreiddiol oedd yn hoelio sylw e.e. Auschwitz a Sain Ffagan
- Rhai disgrifiadau hyfryd gan ymgeiswyr oedd wedi canolbwyntio ar rai digwyddiadau allweddol yn hytrach na rhestru holl weithgareddau'r dydd yn adroddiadol
- Defnydd cywir o'r ffurf a chywair iaith priodol gan y mwyafrif
- Rhai yn cynnwys technegau diddorol e.e. cwestiynau rhethregol, ebychiadau, ailadrodd, ansoddeiriau, cymariaethau a throsiadau

Meysydd i'w datblygu:
- Wrth geisio ysgrifennu gwaith sy'n apelio at gynulleidfa, dylid ceisio osgoi rhestru gweithgareddau diflas y diwrnod e.e. deffro, codi, newid, ymolchi a nodi cynnwys eu brecwast mewn manylder!
- Nifer fawr yn ysgrifennu am drip ysgol i *Alton Towers* neu daith Dug Caeredin sydd o fewn eu profiad – dylid gweithio ar ddefnyddio technegau i fywiogi darn o ysgrifennu er mwyn i un dyddiadur ymhlith llawer tebyg o ran testun allu disgleirio
- Cyfyngiadau o ran adnoddau iaith yn lleihau apêl dyddiadur gan nad oedd amrywiaeth o batrymau brawddegau
- Llawer gormod o ymgeiswyr wedi ysgrifennu am ymweliad â *Bristol Textile Recyclers* gan ail bobi gwybodaeth o'r darn darllen neu, yn waeth, gopïo'n helaeth o'r darn darllen – mae angen darllen y cwestiwn yn fwy gofalus

WJEC CBAC Cyf.

Stori

Cryfderau:

- Mwy o wreiddioldeb syniadau ar draws yr ystod gyda'r dasg hon e.e. cotiau hudol, stori arswyd am ferch mewn cot goch, cot yn cael ei phasio o genhedlaeth i genhedlaeth, aelod o'r cyhoedd yn magu perthynas â pherson digartref gan gwestiynau safonau moesol ein hoes, Marshal y falwoden yn dod o hyd i loches mewn hen esgid!
- Mwy o amrywiaeth gyda'r dasg hon gyda'r ymgeiswyr yn dehongli'r lluniau mewn ffyrdd gwreiddiol a difyr
- Syniadau syml yn arwain at storïau sensitif e.e. merch yn gweld cot goch ac yn ei deisyfu cyn llwyddo i'w chael drwy garedigrwydd cyn diwedd y stori - yn y deisyfu hwn roedd modd uniaethu â'r ferch ac roedd y stori'n cydio
- Sawl stori ar ffurf ymson yn llwyddo i fynd dan groen person digartref gan sylwebu ar agweddau negyddol cymdeithas fodern
- Un arholwr wedi ei phlesio'n arw gan ymson esgid yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ni ddatgelwyd pwy oedd y llefarydd nes daethpwyd at y diwedd - mae'n braf gweld y fath wreiddioldeb
- Y storïau hynny oedd â thro yn y gynffon yn hynod lwyddiannus
- Rhai brawddegau cofiadwy iawn e.e. yr arogl oedd yn ddigon 'i ladd ceffyl' neu'r ymgais i ddisgrifio sŵn ansoniarus 'fel hen wraig yn ceisio defnyddio'r we'
- Mwyafrif y storïau'n gyfanweithiau bwriadus oedd wedi eu strwythuro'n effeithiol a rhai yn sicrhau undod
- Stôr o idiomau yn cael eu defnyddio yn cyfoethogi'r ysgrifennu ac er nad oedd bob un yn cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun cywir, rhaid canmol yr ymdrech
- Defnydd da o'r ffurf gan y mwyafrif

Meysydd i'w datblygu:

- Rhai ymgeiswyr wedi ceisio cynnwys y tri llun yn y stori ac roedd hyn wedi gwneud pethau'n fwy cymhleth a digyswllt nag oedd angen
- Yr arfer o gyfri geiriau yn parhau gan ganolbwyntio mwy ar nifer y geiriau ar draul eu gwerth a chynllunio effeithiol
- Ambell ymgeisydd wedi ysgrifennu araith am ddigartrefedd gan anwybyddu'r testun a osodwyd – rhaid gwirio'r cwestiwn cyn dechrau ysgrifennu

Ysgrifennu'n Gywir (laith, Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)

Mae'r bwlch rhwng safon y cynnwys a safon yr iaith yn parhau. Serch hynny, mae ymdrech amlwg i amrywio patrymau brawddegau ac mae geirfa'r ymgeiswyr yn gyffredinol dda. Ni ellir gwobrwyo marciau uchel, serch hynny, pan fo amrywiaeth o wallau yn ymwneud â berfau, rhagenwau, cystrawennau, treigladau ac, yn anad dim arall, y gwallau amrywiol sy'n gysylltiedig â chenedl enwau.

Cryfderau:

- Geirfa'n dda
- Amrywio brawddegau
- Y mwyafrif yn paragraffu'n ystyrlon
- Atalnodi'n dda ar y cyfan
- Sillafu'n gyffredinol dda

Gwendidau:

- Dim digon o amrywiaeth berfau
- Cenedl enwau – dau a dwy/hwn a hon/treiglo enw benywaidd ar ôl y fannod
- Rhedeg arddodiaid/camddefnydd o arddodiaid
- Idiomau Saesneg

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

- Terfyniadau berfau a chytundeb rhagenwau e.e. Cafodd fi
- Diffyg collnod
- Treigladau meddal yn gyffredinol ond yn arbennig ar ôl arddodiad a threiglo berfenw ar ôl 'yn' traethiadol heb fod ei angen

Negeseuon Adran B

Gwreiddioldeb:
Cofier mai cyswllt thematig fydd rhwng Adran A ac Adran B a gellir dehongli'r thema mewn modd gwreiddiol. Gellir defnyddio cynnwys y darnau darllen yn ddoeth mewn achosion lle mae angen gwybodaeth benodol am destun ond dylid bod yn ofalus rhag ail bobi'r gwreiddiol. Dim ond gwaith gwreiddiol yr ymgeisydd y gellir ei wobrwyo.

Strwythur a datblygiad:
Cofier pwysigrwydd cynllunio a syniad canolog gan sicrhau cyfanwaith ac undod.

Ystyried pwrpas a chynulleidfa:
Mae'r ymgeiswyr hynny sy'n cadw pwrpas y dasg mewn cof yn gyson yn fwy llwyddiannus. Wrth gofio am y gynulleidfa rhaid sicrhau ysgrifennu diddorol ag iddo apêl o ran syniadau ac arddull.

Diolch i'r holl ymgeiswyr am eu hymdrechion ac i'r athrawon am eu harweiniad cadarn ac am ymateb i negeseuon adroddiadau cyfresi haf a Thachwedd 2017. Mae'r ymgeiswyr yn ymateb i'r her o feddwl yn annibynnol a chymhwyso gwybodaeth berthnasol a dyma oedd dymuniad Llywodraeth Cymru wrth baratoi ein hymgeiswyr ar gyfer byd gwaith.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cymraeg Iaith Uned 3

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

Uned 3: Darllen ac Ysgrifennu - Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

Cyffredinol

Roedd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr wedi ymdrechu i ateb holl gwestiynau'r papur arholiad gan ymdrechu i feddwl yn annibynnol a chymhwyso gwybodaeth i ofynion y cwestiynau amrywiol. Er i'r cwestiynau byrion oedd yn cyd-fynd â'r darnau darllen ganiatáu mynediad i'r ymgeiswyr oll, roedd y cwestiynau estynedig yn achosi mwy o drafferth a gwelwyd yma atebion aeddfed a deallus gan garfan lai o ymgeiswyr. Diolch i'r canolfannau am hyfforddi'r ymgeiswyr i feithrin yr amrywiol sgiliau i ymdopi â gofynion gwahanol gwestiynau ac am annog meddwl annibynnol.

Adran A: Darllen

Roedd cwestiynau Adran A yn hygyrch i fwyafrif yr ymgeiswyr, yn enwedig y cwestiynau agoriadol.

A1
Llwyddodd y mwyafrif i nodi'n gywir bod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi dechrau yn 1914. Gwelwyd rhai atebion anghywir fel '1914-1918' – rhaid ateb yr hyn a ofynnir yn y cwestiwn.

A2
Atebodd llawer yn gywir mai'r rheswm y crëwyd y pabïau coch seramig oedd i gynrychioli pob milwr o Brydain a laddwyd yn y rhyfel'. Yn anffodus, anghofiwyd cynnwys manylion angenrheidiol yn yr ateb gan nifer o ymgeiswyr sef mai cofio'r milwyr '**Prydeinig a fu farw'** oedd eu pwrpas, ac felly nid oedd modd gwobrwyo'r atebion hynny.

A3
Llwyddodd yr ymgeiswyr yn eithaf diffwdan i nodi dwy enghraifft o dactegau ymuno â'r fyddin. Fodd bynnag, nid oedd yn bosib gwobrwyo ymgeiswyr oedd yn nodi 'propaganda' heb gyfeirio at y 'posteri' na'r rhai hynny a oedd yn nodi 'rhoi pwysau ar ddynion' heb nodi mai pwysau 'crefyddol' neu 'gymdeithasol' a roddwyd. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr a nododd 'cyfarfodydd recriwtio' fel ateb.

A4
Llwyddodd y mwyafrif i roi tic yn ymyl y 4 ateb cywir. Fodd bynnag, gwelwyd ambell un yn ticio mwy na 4 ateb, ac o ganlyniad roeddynt yn cael eu cosbi. Roedd y brawddegau'n rhoi prawf ar allu'r ymgeiswyr i ymresymu wrth ddarllen pob un o'r datganiadau a gwelwyd tystiolaeth bod rhai ymgeiswyr yn cymysgu e.e. ticio 'Roedd yn rhaid bod o dan 5 troedfedd 3 modfedd i gael eich derbyn' a'r darn darllen yn nodi'n glir bod angen i'r dynion fod 'o leiaf 5 troedfedd 3 modfedd'.

A5
Er bod y cwestiwn hwn wedi profi'n llwyddiant i fwyafrif helaeth yr ymgeiswyr, cafwyd atebion annisgwyl e.e. Yr Arwr, Hanes Hedd Wyn, y gadair ddu, Andy Misell gan sawl un.

© WJEC CBAC Cyf.

A6
Profodd y cwestiwn hwn yn fwy o her na'r disgwyl i sawl ymgeisydd. Er mai 'cafodd gorchudd du ei osod ar y gadair' oedd yr ateb cywir, gwelwyd mwy o ymgeiswyr na'r disgwyl yn nodi mai'r rheswm y galwyd y gadair yn 'Gadair Ddu' oedd oherwydd 'Mae'r lliw du yn symbol o barch'. Adlewyrchiad o ddehongli diangen am arwyddocâd y lliw du oedd hynny ar sail y ffaith nad oedd yr ymgeiswyr hyn wedi deall beth oedd 'lliain', o bosib.

A7
Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i nodi mai 'Roedd eu gwaith yn bwysig i ennill y rhyfel' oedd y rheswm pam nad oedd angen i löwyr, meddygon, gweithwyr ffatri nac amaethwyr gofrestru i fynd i ymladd.

A8
Er mai 'perswadio pobl i fynd ar daith i gofio am Hedd Wyn' oedd pwrpas Darn Darllen 4, syndod oedd gweld bod cymaint o'r disgyblion yn cael trafferth dehongli bwriad y darn wedi darllen manylion y daith. Nododd sawl un mai 'cadw cofnod dyddiadur' oedd y pwrpas ac roedd eraill wedi drysu'n llwyr gyda lleoliad y daith gan feddwl mai 'perswadio pobl i fynd ar daith i ogledd Cymru' oedd y bwriad.

A9
Ar y cyfan, gwelir bod mwy o hyfforddi wedi bod yn y canolfannau o ran ateb cwestiwn "sut" ers llynedd a bod y patrwm EEE (enwi, enghreifftio, effaith) wedi'i wreiddio'n gadarn mewn rhai canolfannau. Roedd yr atebion yn estynedig hefyd – prin oedd yr atebion oedd yn un paragraff yn unig a phrin iawn oedd yr ymgeiswyr nad oeddynt wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn.

Llwyddodd yr ymgeiswyr cryfaf a mwy aeddfed i drafod amrywiaeth o dechnegau arddull yn eu hateb – berfau gorchmynnol, ansoddeiriau cadarnhaol, rhestru, cyfarch y darllenwyr, berfau person cyntaf lluosog, enwi pobl a llefydd, isdeitlau, ailadrodd ("rhesi ar resi"), logo Seren Arian. Roedd yr ymgeiswyr yma yn canolbwyntio ar un enghraifft o bob nodwedd ac yn dadansoddi pwrpas ac effaith y dechneg o fewn cyd-destun y frawddeg/paragraff yn hytrach na'i thrafod yn gyffredinol. Er enghraifft cafwyd sylwadau megis 'mae'r ailadrodd "rhesi ar resi" yn apelio at euogrwydd y Cymry gan fod cynifer o filwyr o Gymru wedi marw yn ystod y rhyfel – cyndeidiau i ni o bosib - ac yn gwneud i ni gredu bod dyletswydd arnom i fynd i weld y beddau'. Fodd bynnag, prin oedd yr atebion a drafododd ddigon o amrywiaeth o nodweddion a'u dadansoddi'n ddeallus bob un i ennill 7/8 marc.

Llwyddodd nifer helaeth o'r ymgeiswyr i enwi berfau gorchmynnol ac ansoddeiriau gan eu henghreifftio'n llwyddiannus yn ogystal. Fodd bynnag, amrywiol iawn oedd safon dadansoddi effaith a phwrpas y technegau hyn. Gwelwyd eto eleni nifer o frawddegau stoc yn cael eu defnyddio e.e. rhannu'r darn yn llai fel ei fod yn haws ei ddarllen (wrth drafod isdeitlau) ... mae'n apelio i'r llygaid ... mae'n edrych yn dda ... oherwydd ei fod o'n perswadio ... mae'n gwneud i'r darllenydd feddwl ... mae'n gwneud i'r trip swnio'n dda ... gwneud i bobl fod eisiau darllen mwy. Mae bwydo brawddegau o'r fath i ymgeiswyr yn gallu gwneud mwy o ddrwg nag o les drwy gyfyngu ar awydd yr ymgeiswyr i ymateb yn bersonol i'r technegau. Byddai'n syniad iddynt ystyried cynulleidfa'r darn ac ystyried pa effaith fyddai'r technegau yn ei gael arnyn nhw o fewn cyd-destun y frawddeg/paragraff yn hytrach nag yn gyffredinol. O ganlyniad, roedd marciau nifer o ymgeiswyr yn isel (llai na 4 marc).

WJEC CBAC Cyf.

Llwyddodd yr ymgeiswyr gwannaf i ennill marc neu ddau drwy ganolbwyntio ar ffeithiau penodol am y daith a gwneud sylw am y lluniau ar waelod y dudalen a'r isdeitlau. Er hyn, roedd ambell ymgeisydd yn cael trafferth labelu technegau gan gyfeirio at ferfau gorchmynnol fel 'berfau -wch' ac at ansoddeiriau fel 'gair arbennig' neu heb labelu o gwbl. Gwelwyd camlabelu hefyd wrth gyfeirio at y logo Seren Arian fel teitl i'r gwaith ac wrth i'r ymgeiswyr gredu bod 'daith deimladwy' yn enghraifft o gyflythrennu pwrpasol ac effeithiol – mae angen dewis a dethol yn ofalus. Tuedd yr ymgeiswyr ar waelod yr ystod oedd aralleirio cynnwys y darn ac felly nid oedd modd eu gwobrwyo.

Unwaith eto, yr un yw'r neges, dylid ceisio uwchsgilio'r disgyblion i ddygymod â her cwestiwn fel hwn.

A10
Roedd dau ateb posib i'r cwestiwn hwn sef bod Liz Saville-Roberts eisiau i Lywodraeth San Steffan drafod oedran ymuno â'r lluoedd arfog oherwydd ei bod yn 'poeni am les/iechyd pobl ifanc' neu am ei bod eisiau 'codi'r oedran recriwtio i'r lluoedd arfog/fyddin o 16 i 18 oed'. Yn anffodus, bu'r cwestiwn yn faen tramgwydd i sawl ymgeisydd gan gynnig atebion megis 'ddim yn oedolyn tan yn 18 oed/pobl dan 18 oed yn blant dan oed/ymuno â'r lluoedd arfog yn 18 yn rhy gynnar/poeni am les pobl. Ceir awgrym, o ganlyniad, nad oedd sawl ymgeisydd wedi deall yr hyn a oedd yn cael ei ofyn yn y cwestiwn.

A11
Yn y cwestiwn hwn, gwobrwywyd ymgeiswyr am danlinellu'r gair yn y blwch neu am ei gopïo o dan y blwch. Roedd hwn yn gwestiwn heriol gyda llawer o ymgeiswyr wedi tanlinellu/copïo'r gair anghywir. Nododd sawl un cywilydd/arbenigwyr/NATO/rhyngwladol/ chyrff fel atebion yn hytrach na 'condemnio'. Cafodd sawl ymgeisydd drafferth copïo'r gair yn gywir gan ei sillafu'n anghywir ('condemio'). Roedd ambell ymgeisydd wedi tanlinellu/copïo mwy nag un gair.

A12
Dyma'r tro cyntaf i gwestiwn cyfuno gwybodaeth ymddangos ar bapur Uned 3 a rhaid cyfaddef mai dim ond llond dwrn o ymgeiswyr oedd yn deall beth i'w wneud â'r wybodaeth ar ôl ei chasglu o'r ddau ddarn. Llwyddodd bron pawb i gyfeirio at wybodaeth o'r ddau ddarn darllen a chyfuno'r wybodaeth yn eu hatebion ond adalw yn unig a wneid. Nid cwestiwn cymharu agweddau oedd yma, ac felly nid oedd gofyn i ymgeiswyr gyfeirio at 'Darn Darllen 5' a 'Darn Darllen 6' ond, yn anffodus, roedd hyn yn gyffredin iawn.
Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i gyflwyno nifer o bryderon a rhesymau a oedd yn ymddangos yn y darnau. Ond roedd yn rhaid **dehongli**'r wybodaeth er mwyn ennill marc uwch na 4 allan o 8. Rhaid cyfaddef mai prin iawn oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd. Disgwyliwn weld rhagor o ymgeiswyr yn gwneud defnydd o'r ddau bwynt bwled yn y cwestiwn fel isbenawdau i drefnu eu hatebion. Y sgiliau oedd angen eu dangos er mwyn cyrraedd y bandiau uchaf o ran marciau oedd blaenoriaethu, trefnu, dehongli a thynnu casgliadau. Byddai defnyddio patrymau megis, 'mae hyn yn bryder/broblem oherwydd', 'o ganlyniad', 'yn amlwg felly', 'awgryma hyn', 'dengys hyn', 'mae hyn yn profi' yn ffordd glir o ddangos bod yr ymgeiswyr yn dehongli. Roedd nifer o'r rhai a oedd yn dehongli yn eu hatebion yn gwneud defnydd o gwestiynau rhethregol i gyflwyno'r pryderon e.e. "Dydyn ni sydd o dan 18 oed ddim digon hen i brynu na chwarae gemau cyfrifiadurol fel *Call of Duty* ond eto'n ddigon hen i fynd i beryglu'n bywydau i'r rhyfel yn ddim ond 16 oed! Cael gafael mewn gwn go iawn ar faes y gad ond ddim un dychmygol yn ein hystafelloedd gwely? Lle mae'r synnwyr yn hynny?"

Mae'r math hwn o gwestiwn yn un mae angen i ganolfannau roi rhagor o sylw iddo.

WJEC CBAC Cyf.

Adran B: Ysgrifennu (40 marc)

Roedd tasg B1 yn gofyn i'r ymgeiswyr ysgrifennu llythyr at Brif Weinidog Cymru yn mynegi barn ar y datganiad 'Plentyn yw unrhyw un sydd o dan ddeunaw oed'.

Dewisodd nifer helaeth o'r ymgeiswyr i fynegi barn am oedran ymuno â'r lluoedd arfog. Gwelwyd mwy o wreiddioldeb wrth i ymgeiswyr hyderus ganolbwyntio ar ostwng yr oedran pleidleisio gan fynegi eu hanfodlonrwydd â chanlyniad y bleidlais Brexit yn 2016. Gwelwyd hefyd lawer o drafod am oedran dysgu gyrru, gadael ysgol a chael rhyw.

Roedd gan yr ymgeiswyr ymwybyddiaeth glir o ffurf y llythyr ffurfiol (er na lwyddwyd i gofnodi dau gyfeiriad bob tro, ac er nad oedd y cyfeiriadau yn y drefn gywir bob amser ychwaith). Dechreuwyd yn hyderus gydag 'Ysgrifennaf atoch ...' bron bob tro a chloi gydag 'yn gywir / yr eiddoch yn gywir' yn gyson (er i ni gael ambell enghraifft o 'eich' a 'hwyl am y tro'). Roedd yr elfen mynegi barn i'w gweld yn glir yn y gwaith gydag ymadroddion amrywiol i'w gweld yn rheolaidd e.e. ffolineb llwyr yw ..., credaf ..., does dim amheuaeth..., hoffwn ategu ..., heb os nac oni bai ... ond roedd tuedd gan rai ymgeiswyr i orddefnyddio 'yn fy marn i'.

Gwnaed defnydd cyson o ferfau gorchmynnol a chwestiynau rhethregol yn nifer o'r llythyrau ac roedd y dadleuon a gyflwynwyd yn drefnus ac mewn paragraffau estynedig gan y goreuon o ganlyniad i hyfforddi yn y canolfannau. Roedd y gweiniaid hefyd yn gwneud defnydd da o'r trefnolion – "yn gyntaf, yn ail, yn olaf".

Gwelwyd enghreifftiau prin o ymgeiswyr ar frig band 5 yn arddangos aeddfedrwydd tu hwnt i'w hoedran o ran eu dadleuon, a'r cywair wedi'i addasu'n fedrus ar gyfer y gynulleidfa (Carwyn Jones).

Elfen i'w chanmol bob amser yw cyfeiriadau cynnil at wybodaeth o'r darnau darllen, ond eleni, bu gorddibyniaeth ar y darnau hyn gyda nifer helaeth o ymgeiswyr wedi seilio'u dadleuon yn llwyr ar y wybodaeth yn narnau darllen 5 a 6 a'i chopïo'n slafaidd. Roedd hyn yn llesteirio unrhyw greadigrwydd a gwreiddioldeb. O ganlyniad, gwelwyd mwy na'r arfer o ymgeiswyr yn methu dringo'n uwch na band 2 o ran cynnwys eu gwaith.

Bydd cyswllt thematig rhwng tasgau Adran B a'r darnau darllen yn Adran A ond dylai hyn fod yn gynhaliaeth yn unig ac nid yn fodd o gaethiwo ymgeiswyr. Dylid meddwl yn greadigol am y thema lle bo hynny'n briodol. Pan fo tasg yn cynnig ei hun o ran defnyddio gwybodaeth o'r darnau darllen, dylid defnyddio a chymhwyso'r wybodaeth a'i chyflwyno mewn modd gwreiddiol ac i bwrpas newydd yn unol â gofynion y dasg. Dylid cynnwys ysgrifennu, syniadau a geirfa gwreiddiol yr ymgeisydd er mwyn profi ei sgiliau ysgrifennu.

Ysgrifennu'n gywir (Iaith, Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)

Ar frig yr ystod marciau roedd defnydd hyderus yr ymgeiswyr o ferfau amhersonol ac afreolaidd, iaith idiomatig a chyhyrog, treigladau cadarn yn bleser eu darllen. Fodd bynnag, er cyfoeth iaith galonogol y goreuon, mae'r ystod o wallau elfennol a welir yng ngwaith ymgeiswyr eraill yn destun pryder.

Y prif ddiffygion o ran cywirdeb iaith yw:

- Cymysgu ti a chi/dy ac eich
- Diffyg rhedeg berfau cyffredin yn gywir/cymysgu presennol a gorffennol
- Methu rhedeg yr arddodiad 'i' - 'iddych/iddof/iddyf/iddym' yn llawer rhy gyffredin

WJEC CBAC Cyf.

- Anghofio treiglo'n feddal ar ôl yr arddodiaid am, ar, at, dros, drwy, dan, i, o, heb, hyd, wrth, gan
- Ddim yn treiglo'n gywir ar ôl y gwahanol ragenwau blaen – fy/ei yn benodol
- Ddim yn treiglo ansoddair ac enw yn feddal ar ôl yr 'yn' traethiadol. Roedd sawl enghraifft o dreiglo berfenw yn anghywir ar ôl yr 'yn' traethiadol
- Methu negyddu brawddegau yn gywir
- Defnyddio y/yr yn anghywir o flaen cytseiniaid/llafariaid
- Cystrawennau
  e.e. yr oed o ddeunaw – deunaw oed,
  rydych chi efo rhai hawliau – mae gennych chi rai hawliau (*mwy cyffredin eleni)
  mae'r llywodraeth yn cael llawer o reolau – mae gan y llywodraeth nifer o reolau
  rhoi pobl ifanc yr hawl i ddysgu – rhoi'r hawl i bobl ifanc ddysgu

Mae hefyd angen sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng iaith lafar ac iaith ffurfiol ysgrifenedig. Gwelwyd gormod o enghreifftiau o ddisgyblion yn ysgrifennu yn UNION fel maen nhw'n siarad.

Tasg berswadiol oedd B2 sef ysgrifennu taflen wybodaeth yn cynnig syniad am daith arbennig i flwyddyn 10 ac 11 i aelodau tîm rheoli'r ysgol.

At ei gilydd, cafodd yr ymgeiswyr well hwyl ar y dasg hon gan ei bod, o bosib, yn apelio'n fwy at ddisgyblion o bob ystod gallu.

Er bod nifer o deithiau gwahanol wedi cael eu disgrifio, roedd nifer fawr ohonynt yn debyg iawn i'w gilydd e.e. roedd sawl ymgeisydd wedi ysgrifennu am daith yn mynd i *Alton Towers* ac *Oakwood*, ac oherwydd hynny roedd yr ymgeiswyr yn dueddol o ailadrodd yr hyn a wnaethon nhw eu hunain yno/nodi trefn y dydd yn hytrach na chanolbwyntio ar fwriad y cwestiwn, sef perswadio. Roedd y technegau perswadio'n brin iawn yn y gweithiau hyn ac oherwydd hynny nid oedd y daflen yn apelio at y darllenwr. Roedd rhai ymgeiswyr wedi anghofio am yr 'amserlen a'r manylion' ac wedi llunio disgrifiad o'r gyrchfan - a'r disgrifiadau hynny'n llwyddo i berswadio, ac roedd eraill wedi cofio am yr 'amserlen a'r manylion' ac wedi anghofio'r angen i berswadio!

Yng ngweithiau'r goreuon ar y llaw arall roedd y technegau perswadio i'w gweld rif y gwlith. Roedd yn amlwg bod yr ymgeiswyr hyn wedi cael eu trwytho yng ngofynion y testun a'r teithiau'n mynd i lefydd mor amrywiol ag Efrog Newydd, Auschwitz, Gwlad yr Ia, Rhufain a Phen Llŷn! Roedd y berfau gorchmynnol i'w gweld yn gyson yn ogystal â chwestiynau rhethregol, ansoddeiriau cadarnhaol ac apelgar a chyfarch y darllenwr yn uniongyrchol. Rhaid canmol ymdrechion athrawon i gyflwyno idiomau ond mae angen bod yn ofalus wrth eu defnyddio – y duedd gan yr holl ymgeiswyr oedd defnyddio rhai rhy gyffredin, idiomau stoc – rhaid annog yr ymgeiswyr i fod yn wreiddiol yn eu defnydd o idiomau. Mewn rhai achosion prin, cafwyd enghreifftiau arbennig o ymgeiswyr yn defnyddio rhesymau'n fedrus i berswadio'r darllenwyr i fynd ar y daith.

Yn debyg i gwestiwn B1, gwelwyd yr ymgeiswyr gwannaf yn dibynnu'n ormodol ar daith Seren Arian (darn darllen 4), a chafwyd aralleiriad ganddynt gyda rhai hyd yn oed yn copïo'r daith air am air.

Gwnaed defnydd da o amserlen, isdeitlau, blwch llun, swigod siarad ac ati gan yr ymgeiswyr mwyaf mentrus, ond roedd tuedd gan rai i orddibynnu ar wybodaeth bytiog yn hytrach na llunio paragraffau a fyddai'n llwyddo i berswadio. Mae angen bod yn ofalus.

© WJEC CBAC Cyf.

Ysgrifennu'n gywir (Iaith, Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)
Gwelwyd enghreifftiau yma eto o ysgrifennu aeddfed a defnydd cadarn a chyfoethog o'r Gymraeg ar ei gorau. Fe'm synnwyd at allu ambell ymgeisydd i fedru newid o un math o ysgrifennu i un arall mor slic a chartrefol. Roedd cyfle yma i chwarae â geiriau ac apelio at ddisgyblion ysgol drwy'r ysgrifennu ond heb golli'r cywirdeb ac heb lafareiddio'r iaith yn ormodol nes colli'r effaith a fwriadwyd.

Yn ychwanegol at y pwyntiau a nodwyd wrth drafod B1, y prif ddiffygion o ran cywirdeb iaith yw:

- Diffyg rhedeg y ferf 'bod' yn yr amser dyfodol yn gywir e.e. 'bydd ni' yn hytrach na 'byddwn ni'
- Graddau'r ansoddair e.e. 'prydferthach' yn hytrach na 'prydferthaf'
- Defnydd anghywir o arddodiad e.e. cyrraedd yr ysgol at 7 o'r gloch
- Ddim yn treiglo'n gywir ar ôl y gwahanol ragenwau blaen – fy/dy yn benodol
- Defnyddio 'hwylus' (*convenient*) yn hytrach na 'hwyliog' (*fun*)
- Cyfieithiadau Seisnig e.e. amser o'ch bywyd, gyd o
- Treiglo enwau lleoedd ar ôl 'yn' ac 'i/o'
- Methu gwahaniaethu rhwng pryd i ddefnyddio 'yn/mewn'.
- Meddwl ei bod yn dderbyniol defnyddio geiriau/termau Saesneg mewn gwaith Cymraeg

Nodaf hyn unwaith eto hefyd: mae angen sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng iaith lafar ac iaith ffurfiol ysgrifenedig. Gwelwyd gormod o enghreifftiau o ddisgyblion yn ysgrifennu yn UNION fel maen nhw'n siarad.

Diolch i'r athrawon am baratoi'r disgyblion ar gyfer yr arholiad ac i'r ymgeiswyr am eu dyfalbarhad.

WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.